Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

Yn falch i fod yn rhan o Proud part of GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent (VAWDASV)

Cyd-Asesiad Strategol o Anghenion

Adroddiad crynhoi

Medi 2026



"Gadewch i ni wneud rhywbeth yn wahanol - Gadewch i ni fod yn ddewr"





©

Rhagair

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyffwrdd â phob rhan o'n cymunedau. Maent yn effeithio ar bobl o bob oed, o bob cefndir ac amgylchiadau, gan adael effeithiau parhaol ar iechyd corfforol, lles meddyliol, perthnasoedd a chyfleoedd drwy gydol oes. Fel gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd y cyhoedd, ond yn gyntaf oll fel aelod o'r gymuned hon, rwy'n teimlo bod y profiadau bywyd sy'n llywio'r gwaith hwn yn cyffwrdd i'r byw ac yn amhosibl eu hanwybyddu. Mae lleisiau goroeswyr yn ein hatgoffa nad yw hyn yn ymwneud ag ystadegau ond yn ymwneud â'r effaith ar bobl, ar deulu ac ar ddyfodol sydd wedi'i newid gan brofiadau o drais a cham-drin.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i bawb a gyfrannodd at y gwaith hwn, yn enwedig y goroeswyr a fu mor garedig wrth rannu eu profiadau. Nid yw siarad am drawma byth yn hawdd, ac mae eich dewrder wedi ein helpu i ddeall yn well nid yn unig yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu, ond hefyd sut mae cefnogaeth dda yn edrych ac yn teimlo.Rydych chi wedi helpu i daflu goleuni ar yr hyn sydd angen newid a rhoi cyfarwyddyd clir ar yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud.

Er bod gan Gwent lawer i fod yn falch ohono o ran ymroddiad staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid sy'n cefnogi'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin, rydym yn gwybod bod gormod o bobl nad ydynt yn cael eu gweld, sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cymorth, neu sy'n aros yn rhy hir am gymorth. Mae'n rhaid i hynny newid.
Mae modd atal trais a cham-drin.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ysbrydoli camau gweithredu yn ogystal â'u llywio . Boed drwy adnabod arwyddion cam-drin, herio ymddygiadau niweidiol neu gefnogi rhywun mewn angen, mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae. Gyda'n gilydd, gallwn greu cymunedau lle gall pawb fyw'n rhydd rhag trais, gyda diogelwch, urddas a gobaith.

Mae'r weledigaeth yn yr asesiad hwn yn uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy: dyfodol lle mae atal yn dod yn gyntaf, lle mae cefnogaeth ar gael pan fo'i angen, lle mae pobl yn cael eu trin â thrugaredd ac urddas, a lle gall pob plentyn, person ifanc ac oedolyn fyw'n rhydd rhag ofn. Dim ond os byddwn yn gweithio gyda'n gilydd y mae'r dyfodol hwnnw'n bosibl.

Felly, mae fy ngalwad i weithredu yn syml. Darllenwch yr adroddiad hwn. Siaradwch am y peth: Rhannwch ei negeseuon . Ystyriwch pa rôl allwch chi, eich sefydliad neu eich cymuned ei chwarae. Boed hynny drwy gefnogi cymydog, creu gweithleoedd mwy diogel, addysgu pobl ifanc, gwirfoddoli, eirioli dros newid neu ddim ond dechrau sgwrs, mae pob cam yn bwysig. Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu Gwent lle nad yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu derbyn fel rhan o fywyd, ond yn cael eu herio, eu hatal ac yn y pen draw eu hanfon i'r gorffennol.

Oherwydd mae pawb yn haeddu teimlo'n ddiogel . Mae pawb yn haeddu cael eu clywed. Ac mae gan bawb ran i'w chwarae wrth wneud i hynny ddigwydd.



Yr Athro Tracy Daszkiewicz
Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd

Adroddiad cryno VAWDASV yng Ngwent

Llunio'r adroddiad hwn

Mae'r cyd-asesiad strategol o anghenion hwn wedi'i gynnal gan Dîm Iechyd y Cyhoedd Gwent ar ran Bwrdd Partneriaeth VAWDASV Gwent.

Diolch

I'r dioddefwyr a'r goroeswyr

Rydym eisiau diolch i'r dioddefwyr a'r goroeswyr a rannodd eu profiadau gyda ni fel rhan o'r asesiad o anghenion hwn. Mae eich mewnwelediadau yn amhrisiadwy ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Partneriaid a Chydweithwyr Gwent

Hoffem hefyd estyn ein diolch i gydweithwyr ledled Gwent a gymerodd ran mewn cyfweliadau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac a rannodd eich profiadau o weithio o fewn gwasanaethau, ac i'r rheiny a gefnogodd ddatblygiad y cyd-asesiad strategol o anghenion hwn trwy gyfrannu tystiolaeth, data a gwybodaeth.

Ein tîm cyflawni

Diolch yn fawr iawn i'n Tîm Iechyd y Cyhoedd yng Ngwent, sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddod â'r adroddiad hwn yn fyw:
Rhiannon Griffiths - Shannon Cuthbertson - Anna Pennington - Jess Ryan -
Amy McNaughton - Alex Walker - Natalie Hazard

Adrodd Straeon a Dylunio - Scott Wilson-Evans

Eisiau gwybod mwy?

Noder, dyma'r adroddiad cryno ar gyfer y cyd-asesiad strategol o anghenion. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi'i llywio gan adroddiad asesiad o anghenion technegol llawn sydd hefyd ar gael ar ein gwefan.

Os hoffech gysylltu â ni, anfonwch e-bost at Admin_ABGPHT@wales.nhs.uk

Gofynnwch am help os oes angen

Os ydych chi wedi cael eich effeithio gan unrhyw un o'r materion a drafodir yn yr adroddiad hwn, mae cymorth ar gael yn lleol ac yn genedlaethol:

Cyfannol Women's Aid
03300 564456
Hafan - Cymorth cam-drin a thrais rhywiol
Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
Llinell gymorth Byw Heb Ofn | LLYW.CYMRU



Cyflwyniad

Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn

Mae'r Adroddiad Cryno hwn yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol Cyd-asesiad Strategol o Anghenion Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent (VAWDASV): Adroddiad Technegol ac yn nodi'r achos dros weithredu ar y cyd yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd ymyrraeth gynnar, atal, a dull system gyfan o fynd i'r afael â VAWDASV oherwydd bod pawb yn haeddu byw'n rhydd rhag ofn trais.



Nodyn ar derminoleg

Mae'n bwysig nodi, er bod yr asesiad o anghenion hwn, yn ogystal â strategaethau, deddfwriaethau a pholisïau cenedlaethol a rhanbarthol, yn cyfeirio at drais yn erbyn menywod a merched, nad yw'n negyddu trais a cham-drin sy'n cael ei gyfeirio at ddynion, bechgyn a rhyweddau eraill, na thrais a cham-drin a gyflawnir gan fenywod a merched. Mae'n cydnabod bod menywod a merched yn profi trais a cham-drin ar sail rhywedd yn anghymesur, a bod trais yn gallu effeithio ar unrhyw un, waeth beth fo'u rhyw, hunaniaeth rhywedd, oedran, ethnigrwydd, rhywioldeb, anabledd, cred grefyddol, incwm, daearyddiaeth, neu ffordd o fyw.

Drwy gydol y ddogfen hon, mae iaith yn amrywio rhwng rhyw (gwryw a benyw) a hunaniaeth rhywedd (dynion, menywod ac anneuaidd). Rydym wedi dewis adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir gan y darparwr data gan fod hyn yn adlewyrchu'n fwy cywir yr hyn y mae'r data yn ei ddangos.

> “Gadewch i ni wneud rhywbeth yn wahanol -Gadewch i ni fod yn ddewr”

Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

Geirfa

Rheolaeth drwy orfodaeth yw patrwm o godi ofn, diraddio, ynysu a rheoli trwy ddefnyddio neu fygwth trais corfforol neu rywiol.

Mae **Cam-drin domestig** yn ddigwyddiad neu'n batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodi, codi ofn, israddio a threisgar, gan gynnwys trais rhywiol, yn y rhan fwyaf o achosion gan bartner neu gyn-bartner, ond hefyd gan aelod o'r teulu neu ofalwr. Gall cam-drin domestig gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, y canlynol: rheolaeth drwy orfodaeth, cam-drin seicolegol a/neu emosiynol, cam-drin corfforol neu rywiol, cam-drin ariannol neu economaidd, aflonyddu a stelcio, cam-drin ar-lein neu ddigidol.

Mae **Anffurfio organau cenhedlu benywod** yn disgrifio unrhyw weithdrefn sy'n cynnwys tynnu organau cenhedlu allanol benywaidd yn rhannol neu'n llwyr neu anaf arall i organau cenhedlu benywaidd am resymau anfeddygol.

Priodas dan orfod yw un a gynhelir heb ganiatâd rhydd a llawn un neu'r ddau berson.

Mae **Aflonyddu** yn cwmpasu ystod eang o ymddygiadau o natur dramgwyddus. Fe'i deellir yn gyffredin fel ymddygiad sy'n dychryn, bygwth, dirmygu, codi gwarth neu gywilyddio person.

Cam-drin ar sail anrhydedd nid oes ddiffiniad sydd wedi'i gytuno'n gyffredinol ar gyfer trais ar sail 'anrhydedd'. Fe'i defnyddir yn gyffredinol i gyfeirio at droseddau sydd wedi'u cyflawni gan droseddwyr sy'n tybio eu bod yn amddiffyn 'anrhydedd' teulu neu gymuned. Yn aml, mae'r troseddau hyn yn cynnwys mathau o gam-drin domestig a thrais rhywiol. Gellir defnyddio 'anrhydedd' o'r fath i gyfiawnhau amrywiaeth o ymddygiadau camdriniol, yn nodweddiadol yn erbyn menywod a merched; fodd bynnag, mae'r rhain yn droseddau hawliau dynol ac ni ddylid eu hesgusodi am unrhyw reswm.

Trais a cham-drin rhywiol yw unrhyw ymddygiad y credir ei fod o natur rywiol sy'n ddiangen ac yn digwydd heb ganiatâd. Gall trais a cham-drin rhywiol fod yn gorfforol, yn seicolegol, yn eiriol neu ar-lein.

Mae **stelcio** yn ymwneud â pherson yn cael obsesiwn gyda rhywun arall. Mae stelcio yn batrwm o sylw parhaus a digroeso sy'n gwneud i chi deimlo eich bod yn cael eich poeni, eich bod yn ofnus, yn bryderus neu'n cael eich aflonyddu.

Mae **trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)** yn ymgorffori Trais yn Erbyn Menywod (a Merched), Cam-drin Domestig, Treisio a Thrais Rhywiol, Aflonyddu Rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Trais ar sail Anrhydedd, Priodas Dan Orfod, Stelcio, Masnachu Pobl a mathau eraill o drais.

Deall VAWDASV

Beth yw ymddygiadau VAWDASV?

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn derm cyffredinol ar gyfer llawer o wahanol fathau o ymddygiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:



Effaith ar Iechyd a Lles

Gall effaith bersonol VAWDASV ddod i'r amlwg mewn llawer o wahanol ffyrdd megis:

Iechyd meddwl

- Anhwylder Straen Ôl-drawmatig
- Iselder
- Gorbryder
- Meddyliau hunanladdol
- Anhwylderau bwyta

Iechyd Corfforol

- Camddefnyddio sylweddau
- Cur pen
- Anhawster Cysgu
- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Llofruddiaeth
- Hunanladdiad
- Syndromau poen
- Problemau atgenhedlu
- Anaf



Adroddiad cryno VAWDASV yng Ngwent

Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent
Public Health Team

Cefndir



Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn groes i hawliau dynol; yn amddifadu pobl o ddiogelwch, rhyddid, a'r hawl i fyw heb niwed. Caiff VAWDASV ei nodi'n achos ac yn ganlyniad anghydraddoldeb rhywedd, ac mae'n fater cymhleth ym maes iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol sydd wedi'i wreiddio mewn anghydraddoldeb a normau cymdeithasol niweidiol. Mae effaith VAWDASV yn ddinistriol ac yn helaeth; yn effeithio ar iechyd a lles plant, pobl ifanc, menywod, dynion, teuluoedd a chymunedau ehangach.

Dull iechyd cyhoeddus

Mae dull iechyd cyhoeddus o atal trais yn hanfodol.Isod mae ein dull gweithredu:

1. **Gwybod y ffeithiau**
Gweithio mewn partneriaeth i ddeall a diffinio'r broblem. Ymchwilio i'r mater mewn ardal ddaearyddol neu grŵp poblogaeth penodol. Asesu yr achosion sylfaenol a'r ffactorau risg ac amddiffynnol. Integreiddio mewnwelediad gan unigolion, cymunedau a phobl â phrofiad bywyd yn y dadansoddiad.

2. **Archwilio yr atebion**
Asesu y dystiolaeth o 'beth sy'n gweithio' i atal trais. Defnyddio y dystiolaeth i lywio atebion a gynhyrchir ar y cyd yn lleol sy'n berthnasol yn gyd-destunol ac yn ddiwylliannol. Datblygu damcaniaeth newid sy'n egluro sut a pham y bydd yr ymyrraeth yn atal trais.

3. **Gweithredu a gwerthuso**
Gweithredu, monitro, gwerthuso a mesur cynnydd. Cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhaglenni effeithiol ar gyfer atal trais.

4. **Addasu a gwneud mwy o'r hyn sy'n gweithio**
Newid a datblygu dulliau i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir yn seiliedig ar werthuso a monitro dangosyddion lefel poblogaeth. Gwella neu gynyddu rhaglenni sydd wedi profi eu heffeithiolrwydd er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach. Gweithio gyda phartneriaid i gydlynu llwybrau atal trais cynhwysfawr ar draws y sbectrwm atal.

Bwrdd VAWDASV Gwent

Mae Bwrdd VAWDASV Gwent, a ffurfiwyd yn unol â gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn dwyn ynghyd grŵp amrywiol o bartneriaid sydd â chyd uchelgais i gefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt gan VAWDASV ac i ddilyn rhaglen atal VAWDASV.

Yn unol ag adran 5 o Ddeddf VAWDASV, cyhoeddodd Bwrdd VAWDASV Gwent strategaeth pum mlynedd ar gyfer VAWDASV (2023 – 2027) a oedd yn argymell asesiadau o anghenion rheolaidd i fonitro cyffredinrwydd VAWDASV a'i raddfa ledled Gwent. Cynhaliwyd y cyd-asesiad o anghenion hwn yn unol â'r argymhelliad hwn a bydd yn llywio diweddariad o'r Strategaeth VAWDASV yn 2027.

Effaith VAWDASV ar yr economi

£89.3 Biliwn
ar gyfer cam-drin domestig

£10.2 Biliwn
am droseddau rhywiol eraill

£6.6 Biliwn
ar gyfer treisio



£267,371
Cost yn ystod oes pob dioddefwr sy'n oedolyn



£507,149
Cost yn ystod oes pob dioddefwr sy'n blentyn

Bydd cyfanswm cost VAWDASV yng Nghymru a Lloegr hyd yn oed yn fwy na'r ffigurau hyn.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y costau economaidd ar gyfer mathau eraill o VAWDASV y tu hwnt i gam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn hollbwysig, nid yw'r ffigurau hyn chwaith yn ystyried y costau personol, cymdeithasol ac emosiynol a ddioddefir gan ddioddefwyr a'u teuluoedd, oherwydd cam-drin.

Mae VISION a'r Grŵp Cyllideb Menywod wedi creu cyfrifiannell sy'n amcangyfrif bod costau yn ystod oes trais rhywiol yng Nghymru dros **£22 biliwn.**

Ffynhonnell: Vision

Ffynhonnell: Swyddfa Gartref

*Amcangyfrifir y costau hyn ar gyfer oedolion yn unig.



Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

Darlun cenedlaethol o VAWDASV

Mae cyffredinrwydd VAWDASV yn genedlaethol yn helaeth ac yn cwmpasu nifer o wahanol feysydd a ddangosir isod:

Trais Rhywiol

898,000 **person 16 oed a hŷn sydd wedi profi ymosodiad rhywiol**

1 o bob 4 Menyw
1 o bob 18 Dyn **yn y DU wedi cael eu treisio neu wedi profi ymosodiad rhywiol ers 16 oed.**

Mae 2 mewn 5 **o achosion o dreisio yn erbyn menywod yn cael eu cyflawni gan eu partner neu gyn-bartner,** ac mae pedwar o bob pump o dreisiau yn erbyn menywod yn cael eu cyflawni gan rywun maen nhw'n ei adnabod.

Trais ar sail anrhydedd (HBV)

2,949

Troseddau sy'n gysylltiedig â HBA a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Yn 2024/25, ymatebodd Llinell Gymorth Karma Nirvana i dros 10,000 o gysylltiadau, a chefnogodd 3,079 o achosion sy'n cynrychioli cynnydd o 35% yn nifer yr achosion ers 2021/22.

Priodas dan orfod

40%

o dan 18 oed.

Yn 2025, cefnogodd Uned Priodasau dan Orfod Llywodraeth y DU 406 o achosion yn ymwneud â phriodasau gorfodol a/neu FGM yn y DU.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

114

Meny yng Nghymru

Mae dioddefwyr a goroeswyr FGM yn tueddu i fyw yng nghanol y ddinas.

.

Stelcio

1 o bob 5 Menyw
1 o bob 11 Dyn **dros 16 wedi dioddef stelcio yng Nghymru a Lloegr.**

12.7% **o bobl rhwng 16 a 24 oed wedi profi stelcio.**

Grwpiau sydd mewn perygl gan gynnwys pobl ifanc LGBTQ+, y rhai sy'n agored i drais rhyngbersonol rhieni, a phobl ifanc niwroamrywiol.

Cam-drin Domestig

1 mewn 4

wedi profi cam-drin domestig ers 16 oed.

yng Nghymru a Lloegr wedi profi cam-drin domestig yn eu hoes (sy'n cyfateb i 12.5 miliwn o bobl, hyd at fis Mawrth 2025).

Roedd 7.3 miliwn yn fenywod
Roedd 5.2 miliwn yn ddynion

Aflonyddu rhywiol

O arolwg diweddar gan Cymorth i Fenywod Cymru:

92% **Yn adrodd eu bod wedi profi aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus.**

1 mewn 10 **menyw wedi profi aflonyddu seiber ers 15 oed.**

Mae'r risg ar ei huchaf ymhlith menywod ifanc rhwng 18 a 29 oed.

81% **wedi nodi eu bod wedi profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle ar o leiaf un achlysur.**

Mae menywod BAME yn profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle sy'n gysylltiedig yn benodol ag ethnigrwydd, diwylliant a chrefydd.

Llofruddiaeth ddomestig

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025

347 **person wedi marw mewn cysylltiad â cham-drin domestig, neu o ganlyniad iddo.**

150 **O hunanladdiadau yr oedd yr heddlu'n amau oedd yn hunanladdiadau gan ddioddefwr cam-drin domestig.**

78% **o'r dioddefwyr yn y marwolaethau hyn yn fenywod.**

*Mae'r holl ddata ar y dudalen hon hyd at Fawrth 31ain 2025.

Effaith VAWDASV ar wahanol boblogaethau

Mae profiad o gam-drin a rhwystrau i gael mynediad at gymorth yn cael eu dylanwadu'n gryf gan hunaniaeth a nodweddion y rhai yr effeithir arnynt. Gall y grwpiau o bobl a amlygir isod fod mewn mwy o berygl o brofi VAWDASV a/neu wynebu rhwystrau i gael mynediad at gymorth. Mae dealltwriaeth drylwyr o anghenion cymunedau sydd heb ddigon o wasanaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn ddiogel ac yn effeithiol i'n holl gymunedau.



Bydd **700,000** o unigolion 60 oed a hŷn yn y DU wedi profi o leiaf un math o gam-drin



Mae **41%** o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig yn wrywod



Roedd **13.4%** o bobl 16 oed ac hŷn gydag anabledd yn ddioddefwyr cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf



Menywod sy'n fyfyrwyr sydd fwyaf tebygol o brofi ymosodiad rhywiol o'i gymharu ag unrhyw statws cyflogaeth arall



Mae **1 o bob 5** o bobl deurywiol wedi profi cam-drin domestig



Mae **11.5%** o fenywod du ac 8.6% o fenywod o gefndir ethnig cymysg wedi profi cam-drin domestig



Mae **1 o bob 5** oblant yn y DU wedi cael eu hamlygu i gam-drin domestig

Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

Nodau, amcanion a methodoleg

Nod y gwaith hwn yw amlinellu anghenion y boblogaeth ac ymateb y system VAWDASV, gan gynnwys profiadau'r rheiny sy'n gweithio o fewn y system, a'r rhai sydd wedi derbyn cymorth gan wasanaethau, er mwyn nodi meysydd o arfer da a chyfleoedd i wella.

Y prif amcanion yw:

- Cydgrynhoi cyd-destun cenedlaethol ac ehangach VAWDASV, gan gynnwys polisi, deddfwriaeth, cyffredinolrwydd, a phrofiadau unigryw gwahanol boblogaethau;
- Amlinellu ein sefyllfa bresennol, a'r heriau cysylltiedig, o ran y ffordd yr ydym yn deall cyffredinrwydd VAWDASVyng Ngwent;
- Cyflwyno crynodeb gydlynol o'n canfyddiadau, gan gynnwys y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau VAWDASV yng Ngwent, demograffeg ac anghenion y rheiny yng Ngwent, a'n gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau VAWDASV;
- Rhannu lleisiau'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan VAWDASV a'u profiadau o ddefnyddio gwasanaethau ledled Gwent;
- Harneisio lleisiau gweithwyr proffesiynol i nodi arfer da ac amlygu cyfleoedd i wella'r ffordd yr ydym yn cefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt;
- Cyd-gynhyrchu argymhellion gyda phartneriaid i gryfhau ein cyd-ymateb strategol i VAWDASV yng Ngwent;
- Ddarparu mewnwelediadau i lywio diweddariad strategaeth y Bwrdd VAWDASV yn 2027.

Nod : amlinellu anghenion y boblogaeth ac ymateb y system i VAWDASV yng Ngwent



Llun GwentVAWDASV

Un o'r heriau mwyaf arwyddocaol yw'r diffyg dealltwriaeth ynghylch gwir gyffredinrwydd VAWDASV ledled Gwent.

"Mae llawer mwy nad ydyn ni'n ei weld. ..y rhai nad ydyn nhw'n adrodd; roedden nhw'n rhy ofnus i adrodd." (T30)

Ar gyfer yr asesiad o anghenion hwn, rhannodd Heddlu Gwent ddata ar ddigwyddiadau, troseddau ac arestiadau ar gyfer 2024/25 yn ôl Awdurdod Lleol.









Mae cyfradd y digwyddiadau cam-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2024/25 yn sylweddol (33.27 o ddigwyddiadau aer gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth), o'i gymharu â chyfradd y troseddau (16.94 o droseddau ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth). Yn bwysig, ni fydd pob digwyddiad a gofnodir gan yr heddlu yn bodloni trothwyon ar gyfer trosedd neu ar gyfer camau gweithredu pellach fel arestio. Fodd bynnag, gall y digwyddiadau hyn fod yn arwyddion rhybudd cynnar ar gyfer ymddygiad sy'n gwaethygu, neu fel cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar.

Wedi'i ddatblygu i wella ein gallu i fesur cyffredinrwydd achosion o gam-drin domestig, mae offeryn a gynhyrchwyd gan SafeLives yn amcangyfrif bod 37,500 o bobl sy'n byw yng Ngwent wedi profi cam-drin domestig yn ystod y 12 mis diwethaf. O'r rhain, nid yw 26,000 o bobl yn weladwy i wasanaethau ac maent yn ddioddefwyr 'anweledig' (SafeLives, 2026).

Amcangyfrif o gyffredinolrwydd Cam-drin Domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf



Amcangyfrif o Gyffredinrwydd dioddefwyr (16+) yng Ngwent: Cam-drin Domestig



1,000 o Bobl o Leiafrifoedd Du, Asiaidd ac Ethnig
17.6% o fenywod; 13.5% o wrywod



18,000 o Bobl ag Anabledd
32% o fenywod;
25% o wrywod



3,000 O BOBL LHDTC+
20.1% o fenywod;
14.4% o wrywod



7,000 o Bobl Hŷn (60+ oed)
5.3% o fenywod; 3.3% o wrywod



8,000 o Bobl Ifanc (16-24 oed)
17.6% o fenywod; 13.5% o wrywod

Ffynhonnell: Offeryn Cyffredinrwydd SafeLives, Ionawr 2026

"Er ein bod ni'n defnyddio data'r heddlu ac yn dibynnu ar ddata'r heddlu, mae yna garfan gyfan o ddioddefwyr na fyddant yn mynd at yr heddlu , na fyddant yn adrodd i'r heddlu nac yn datgelu i'r heddlu, felly bydd y nifer hwnnw bob amser yn llawer mwy na'r hyn a welwn ar bapur." (T29)

Darpariaeth bresennol Gwent o VAWDASV



Mae'r map uchod yn cyflwyno darpariaeth gwasanaeth sector VAWDASV arbenigol sydd ar gael ar draws holl ardaloedd Gwent.

Fel arfer, disgrifir gwasanaethau VAWDASV effeithiol fel rhai sy'n ystyriol o drawma, yn canolbwyntio ar y goroeswyr, yn cael eu harwain gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, yn gyfannol ac yn groestoriadol. Maent yn cydnabod effaith trawma, yn blaenoriaethu diogelwch a grymuso, yn ymateb i anghenion a hunaniaethau amrywiol dioddefwyr a goroeswyr, ac yn darparu cefnogaeth gydlynol ar draws asiantaethau er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau eang cam-drin.

Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth (MARAC)

Yn 2024/25, trafododd MARACs ledled Gwent 1,545 o achosion risg uchel - 56% yn fwy o achosion na meincnod SafeLives o 990 o achosion ar gyfer maint poblogaeth Gwent.

Gwasanaeth Cynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVA)

yn 2025/26, derbyniodd gwasanaeth IDVA Gwent 1,639 o atgyfeiriadau, a gwnaed 61% ohonynt yn gan yr heddlu.

Cyfannol Women's Aid

Gwasanaethau Llety:
227 o Fabanod, Plant a Phobl Ifanc

Buddiolwyr gwasanaethau (2024/25)

Cymorth i Blant a Phobl Ifanc:
122 o Fabanod, Plant a Phobl Ifanc

Horizon (yn cefnogi dioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol):
504 o Oedolion, Plant a Phobl Ifanc
(113 o bobl ar y rhestr aros)

Gwaith grwp:
277 o Oedolion

Gwasanaethau Cymunedol:
1379 o oedolion

Gwasanaeth Digartrefedd Llamau: Cam-drin Domestig a Gwasanaethau Penodol i Rywiau 2024/25

Refuge

Cofnodion: 57 **Allanfeydd: 53** **Plant: 33**

Gwasanaethau cymorth symudol allgymorth

Sesiynau cymorth 1:1: 5,306 **Allanfeydd: 217** **Cofnodion: 286** **Plant: 417**

Gwasanaeth New Pathways (ISVA a SARC*)

Yn 2025/26, derbyniodd New Pathways 546 o atgyfeiriadau ar gyfer oedolion a 114 o atgyfeiriadau ar gyfer plant a phobl ifanc i'w wasanaeth cwnsela, tra bod ei wasanaeth SARC/ISVA wedi cefnogi 530 o oedolion a 164 o blant a phobl ifanc trwy atgyfeiriadau.
*Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) a Chanolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)

BAWSO

Yn 2024/25, cefnogodd BAWSO 116 o gleientiaid, ac ystyriwyd bod 34% ohonynt yn risg uchel.

Y Lleisiau o Bob Cwr o Went

Dn ystod y gwaith hwn, clywsom leisiau goroeswyr a phartneriaid sy'n gweithio ym maes VAWDASV ledled Gwent. Yn ystod yr ambell i dudalen nesaf, rydym yn rhannu rhywfaint o'r adborth a glywsom yn ddienw. Wrth ymyl rhai o'r dyfyniadau mae rhifau tudalennau lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein hadroddiad technegol.

Cefnogaeth dosturiol

Mae yna lawer o wasanaethau cymorth ledled Gwent sy'n cynnig cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr VAWDASV. Yn gyffredinol, mae dioddefwyr a goroeswyr sydd wedi defnyddio gwasanaethau ledled Gwent yn adrodd am brofiadau cadarnhaol, gan dynnu sylw at broffesiynoldeb, tosturi ac ansawdd y gefnogaeth a ddarperir gan staff.

"Doedd dim rhaid iddo eistedd a gwneud hynny am ddwy awr. Ond fe wnaeth hynny oherwydd ei fod eisiau helpu. Roedd hynny werth y byd i mi, bod rhywun yn fodlon mynd allan o'i ffordd i'm helpu yn y ffordd honno, roedd e'n wych." (LE2)

"Oni bai am New Pathways, fyddwn i ddim yma , dw i ddim yn meddwl." (LE4)

"Roedd yn un o ddiwrnodau anoddaf fy mywyd. Roedd y nyrs a'r tîm yn hynod broffesiynol a thosturiol ... fe wnaethon nhw fy nhrin ag urddas a gofal ar adeg pan oeddwn i'n teimlo fy mod i wedi cael fy amddifadu'n llwyr ... Nid oedden nhw'n fy ngweld fel tystiolaeth yn unig, roedden nhw'n fy ngweld fel person ." (LE5)

Gweithio Gyda'n Gilydd

Ar draws y rhanbarth, cafodd y cydweithrediadau amlasiantaeth eu hystyried yn gadarnhaol gan weithwyr proffesiynol, gan adlewyrchu trefniadau partneriaeth cryf sy'n helpu i gydlynu ymatebion i VAWDASV ledled Gwent.

"Mae ymrwymiad gwirioneddol i bawb yn gweithio gyda'i gilydd ac rwy'n teimlo bod hynny'n gweithio'n dda iawn yng Ngwent." (P1)

"Rydych chi'n gwybod bod gennych chi gefnogaeth gan bawb arall o amgylch y bwrdd." (T11)

"Rydym am amddiffyn dioddefwyr a theuluoedd, rydym am ddiogelu ac rydym yn gwneud hynny gyda'n gilydd. Ond yr hyn dw i'n meddwl sy'n gweithio'n dda iawn yw bod gennym ni gyd-weledigaeth, a chyd nod ". (P36)

Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

Capasiti'r System

Mae dioddefwyr, goroeswyr a gweithwyr proffesiynol yn cael trafferth gyda rhestrau aros hir a heriau ariannu parhaus. Mae'r problemau hyn yn parhau i gyfyngu ar argaeledd ac amseroldeb cymorth gan amlygu'r angen am fwy o gapasiti gwasanaeth a buddsoddiad cynaliadwy.

"Mae rhestrau aros hir wedi bod ar gyfer rhaglenni cymorth i ddioddefwyr ac mae hynny wedi achosi problemau sylweddol i ni o ran cael y cymorth sydd ei angen ar ddioddefwyr a phlant. Mae gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn wynebu rhestrau aros enfawr." (T18)

"Capasiti cyfyngedig o ran staffio. Mae angen mwy arnom. Mae angen mwy o bobl yn gweithio yn y sector hwn yn gyffredinol " (T17)

"Gallai fod yn flynyddoedd cyn i mi weld rhywun." (LE3)

Lle diogel

Ochr yn ochr â darparu lloches, mae gwasanaethau tai a digartrefedd yn chwarae rhan hanfodol yn yr ymateb cydlynol i VAWDASV, gan helpu dioddefwyr i adael sefyllfaoedd ble maent yn cael eu cam-drin yn ddiogel. Fodd bynnag, mae mynediad at dai diogel ac addas yn parhau i fod yn her sylweddol yng Ngwent, gyda phrinder lleoedd yn aml yn gadael dioddefwyr a goroeswyr â dewisiadau cyfyngedig ar gyfer llety.

"Nid yw'r llety a'r tai y mae pobl yn cael eu rhoi ynddynt bob amser yn addas nac yn ddiogel. Rydw i wedi gweithio gyda goroeswyr sy'n aml yn dewis byw ar y strydoedd yn hytrach na chael eu rhoi yn y llety " (T40)

"Dywedwyd wrthyf y gallwn gael fy rhoi mewn llety cymysg dros dro am hyd at 18 mis, ochr yn ochr â phobl sy'n dod allan o'r carchar neu sydd â phroblemau cyffuriau. Nid diogelwch oedd hynny, risg arall oedd hynny " (LE5)

Ein demograffig presennol

Isod mae dadansoddiad o brif nodweddion demograffig pobl sy'n hysbys i wasanaethau yng Ngwent.

Oedran

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau ledled Gwent yn cefnogi dioddefwyr a goroeswyr rhwng 25 a 45 oed.



Ethnigrwydd

Mae nifer y dioddefwyr a'r goroeswyr sy'n cael eu cefnogi gan dimau BAWSO Gwent wedi dyblu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.



Amgylchiadau teuluol

Mae gan draean o'r dioddefwyr a'r goroeswyr a gefnogir gan Cymorth i Fenywod Cyfannol blant yn yr cartref.



Rhyw

Mae mwyafrif y dioddefwyr a'r goroeswyr sy'n hysbys i'r gwasanaethau yng Ngwent yn fenywod.



Statws anabledd

Mae gan hanner y dioddefwyr a'r goroeswyr sy'n defnyddio New Pathways yng Ngwent anabledd.



Mae dioddefwyr a goroeswyr VAWDASV sy'n defnyddio gwasanaethau yng Ngwent yn fenywod rhwng 26 a 45 oed yn bennaf, ond efallai bod rhai grwpiau wedi'u tangynrychioli.

> "Rydyn ni wedi cael cryn dipyn yn ddiweddar - pobl hŷn...mae hynny i gyd wedi'i guddio'n llwyr." (T17)
>
> "Yr hyn a all fod ar goll weithiau yw cam-drin domestig teuluol." (T28)

Nid yw gwasanaethau presennol bob amser yn diwallu anghenion pob grŵp o ddioddefwyr, yn enwedig dynion, cymunedau LHDTC+ a chymunedau lleiafrifoedd ethnig neu gymunedau crefyddol.

> "Rydym yn symud i loches anghenion cymhleth 24 awr lle gallwn dderbyn, nid dynion, ond bron pawb arall." (T17)
>
> "Mae Casnewydd yn ganolfan i'r Swyddfa Gartref ar gyfer ceiswyr lloches ac mae hynny'n dod â gwahaniaethau diwylliannol a chrefyddol sy'n effeithio ar allu pobl i siarad." (T15)

Mae cael anabledd a/neu gael plant yn y cartref yn ffactorau pwysig sy'n llywio bregusrwydd ac anghenion cymorth.

> "Dim ond am nad yw'r gefnogaeth yno y mae pobl yn colli plant. Os oes ganddyn nhw'r gefnogaeth gywir a'r ymyrraeth gywir, yna mae'n bosib iddynt ddal y cyfan gyda'i gilydd." (LE2)

Anghenion lluosog ac anghenion sy'n cyd-ddigwydd

Yn aml, gall fod gan y rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan VAWDASV anghenion penodol y mae angen eu hystyried fel rhan o'u cefnogaeth. Y ddau brif angen ychwanegol a nodwyd drwy'r JSNA hwn oedd camddefnyddio alcohol a sylweddau ac iechyd meddwl.

Defnyddio alcohol a sylweddau



Gall defnyddio sylweddau fod yn ffactor bregusrwydd ac yn fecanwaith ymdopi ar gyfer VAWDASV. Led led Gwent, mae'r defnydd cynyddol o alcohol a sylweddau ymhlith dioddefwyr a goroeswyr yn gwneud achosion yn llawer mwy cymhleth ac yn aml mae bwlch yn y ddarpariaeth o wasanaethau i gefnogi anghenion dioddefwyr a goroeswyr.

"Os oes gennych chi fenyw sy'n profi trais domestig, sydd angen bod yn rhywle diogel, bydd opsiynau iddi fynd iddo. Os yw hi hefyd yn defnyddio sylweddau, mae'r dewisiadau hynny'n gyfyngedig iawn." (T45 a T46)

Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

Iechyd meddwl



Mae gwasanaethau VAWDASV yng Ngwent yn adrodd yn gyson bod angen cymorth iechyd meddwl ar ddioddefwyr a goroeswyr. Gallai'r gefnogaeth hon fod ar ffurf meddyginiaeth, ond i raddau helaeth, cydnabyddir mai siarad â gweithiwr proffesiynol a chael eich clywed yw'r cymorth mwyaf effeithiol.
Er bod y galw am wasanaethau iechyd meddwl wedi cynyddu, nid yw'r ddarpariaeth o wasanaethau wedi cynyddu. Gan arwain at restrau aros hir.

"Byddwn i'n dweud bod angen rhyw fath o gefnogaeth iechyd meddwl ar bob person sy'n dod allan o berthynas ble roedd cam-drin yn digwydd." (LE3)

Babanod, plant a phobl ifanc

Gallai babanod, plant a phobl ifanc gael eu heffeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan drais a cham-drin ac mae'n debygol y bydd eu hanghenion cymorth yn amrywio o un plentyn i'r llall. I rai, efallai y bydd angen iddynt gael mynediad at gefnogaeth drwy gydol eu hoes.

"Mae'n ffaith ei fod yn cael effaith andwyol iawn ar weddill eu bywydau.. .yr hyn maen nhw'n ei brofi fel plentyn...newid cyfeiriad eu bywyd cyfan ." (LE3)

"Rydym yn gweld cyfraddau llawer uwch o broblemau iechyd meddwl, lles a thrawma, gyda phlant yn llai parod i fynd i'r ysgol a chymryd rhan yn yr ysgol ." (T5)

"Mae ei phlant yn dangos arwyddion o or-wyliadwriaeth a mwy o orbryder ... mae'n frawychus i'r plant ddelio ag ef." (T42)

Rhywbeth a oedd yn peri pryder arbennig oedd rhieni a gweithwyr proffesiynol yn nodi sut roedd rhai o'r plant a'r bobl ifanc yn adlewyrchu'r ymddygiadau yr oeddent wedi'u gweld.

"Fy mab, mae'n mynd yn eithaf treisgar ... Dw i'n gweld hynny'n brofiad sy'n sbarduno ... pan ddaw'r niwl hwn i lawr arno, mae ei nodweddion yn union fel ei dad." (LE2)

"Rydw i wedi gweithio gyda rhieni a gofalwyr ac yna efallai ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, rydw i'n dechrau gweld y plant yn eu harddegau neu yn eu blynyddoedd diweddarach yn dod drwodd mewn patrymau a chylchoedd tebyg." (T40)





Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Nododd gweithwyr proffesiynol, dioddefwyr a goroeswyr sawl maes a allai gefnogi datblygiad parhaus y system VAWDASV yng Ngwent. Mae'r meysydd hyn a awgrymwyd wedi'u fframio fel rhan o weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, gan ddisgrifio sut y galla'r system VAWDASV edrych yng Ngwent ar gyfer ein cymunedau.

Gweledegdd anghenion penodol

Mae profiad bywyd wedi'i ymgorffori yn y ddealltwriaeth o VAWDASV yng Ngwent, gan ganiatáu i weithwyr proffesiynol **gydnabod ac ymateb yn well** i anghenion a phrofiadau dioddefwyr a goroeswyr a chymunedau dan anfantais a allai fod ag anghenion penodol. Wrth nodi a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr, mae gwasanaethau a staff yn **ystyriol o drawma, yn sensitif i ddiwylliant ac yn cael eu harwain gan anghenion.**

Mae **pob dioddefwr a goroeswr** yn cael eu hadnabod, eu cydnabod a'u cefnogi gan wasanaethau priodol, gan gynnwys babanod, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, dioddefwyr a goroeswyr gwrywaidd, pobl LHDTC+, grwpiau hil leiafrifiedig a phobl ag anableddau.

"Gwell chwilfrydedd proffesiynol, llai o feio dioddefwyr, her o amgylch rhagfarn anymwybodol. Oherwydd ei fod yn gwneud i bobl lithro drwy'r rhwyd ... rydych chi wedi colli'r cyfle euraidd hwnnw" (T28)

"Rwy'n teimlo ei bod fel pe bai'r plant wedi cael eu hanghofio ... does dim gwasanaethau cwnsela i'r plant ... Dim byd ... plant sy'n mynd i lochesi, maen nhw wedi cael eu cymryd i ffwrdd o'u cartref. Mae nhw i fod yn eu gwely...gyda'u duvet...a'u teganau...Does neb yn poeni" (LE2)

Dull a rennir o ymdrin â data

Mae gan Gwent **brotocol arfer gorau** a phwrpas cyffredin sefydledig ar gyfer defnyddio data wrth rannu gwybodaeth ac mae hwn yn **offeryn diogelu hanfodol** . Mae system wedi'i datblygu i **alluogi rhannu data diogel** ar draws pob sefydliad er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posibl o amddiffyn y rhai yr effeithir arnynt gan VAWDASV.

Mae rhannu data effeithiol rhwng sefydliadau ac asiantaethau wedi helpu i sefydlu golwg gyfannol ar VAWDASV yng Ngwent ac wedi helpu i fynd i'r afael â bylchau o ran gwybodaeth bresennol ynghylch anghenion penodol a chyffredinrwydd VAWDASV. Mae lleisiau'r rheiny sydd â phrofiad byw o VAWDASV wedi'u plethu trwy'r data rhifiadol i ychwanegu cyd-destun a dyfnhau dealltwriaethau.

"Sut rydym yn defnyddio'r data hwnnw i yrru ein blaenoriaethau, ein cyfeiriad a ble mae angen i ni fynd yn eu blaenau. Oherwydd heb wneud hynny, ni fyddwn yn gwella o ran gwneud Cymru y lle mwyaf diogel i fenywod" (T29)

"Edrychwyd ar bob adroddiad unigol ar ei ben ei hun. Wnaeth o ddim adeiladu'r darlun ... yna mae'n rhy hwyr" (T28)

Diwylliant ar gyfer newid

Gofal cyfannol, hirdymor

Mae system VAWDASV Gwent yn rhoi dioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd wrth wraidd y gefnogaeth, gan ddarparu **gofal tosturiol, sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y person ,** sy'n cydnabod anghenion unigolion, **yn lleihau ail-drawmateiddio** ac **yn hyrwyddo adferiad hirdymor.**
Mae llwybrau gofal integredig yn sicrhau y gall pob dioddefwr a goroeswr gael mynediad at **gymorth, amddiffyniad a llety diogel o ansawdd uchel mewn modd amserol,** gan **gael eu hysbysu a'u cynnwys mewn penderfyniadau** sy'n effeithio ar eu gofal a'u lles.

"Aros i ddarganfod beth sy'n digwydd.. .Mae fel nad ydw i hyd yn oed yn teimlo fy mod i wedi cael fy nghymryd o ddifrif" (LE1)

"Mae angen diogelwch, cysondeb a dynoliaeth ar ddioddefwyr, nid mwy o rwystrau i neidio drwyddynt" (LE5)

Byddwch yn rhagweithiol, nid yn adweithiol

Mae **atal ac ymyrraeth gynnar** yn ganolog i ddull Gwent o ymdrin â VAWDASV, gyda buddsoddiad mewn **mentrau ar lefel y boblogaeth** sydd â'r nod o newid agweddau cymdeithasol a **sicrhau y gall cymunedau fyw'n rhydd rhag ofn**. Mae addysg a chodi ymwybyddiaeth, yn enwedig drwy ysgolion, yn chwarae rhan allweddol wrth **ymgorffori negeseuon ataliol** a chefnogi ymyrraeth gynnar.

"Yr hyn y byddwn i'n ei wneud yw gwneud menywod yn gyffredinol yn fwy ymwybodol oherwydd nid yw llawer o fenywod hyd yn oed yn sylweddoli, gan gynnwys fi fy hun, mai cam-drin yw'r hyn maen nhw'n ei brofi mewn gwirionedd" (LE2)

"Rydym yn sôn am atal, ni all fod yn ymwneud â'r ... troseddwr yn unig" (T44)

EIN HADDEWID I GWENT

RYDYM YN ADDO...

Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

1.
Y bydd atal ac ymyrraeth gynnar wrth wraidd ein dull o ymdrin â VAWDASV ac y bydd yn cael ei yrru gan y gred bod gan ein cymunedau'r hawl i fyw'n rhydd rhag ofn.

2.
Y bydd gan fabanod, plant a phobl ifanc sydd wedi profi VAWDASV o fewn eu teulu neu yn eu perthnasoedd personol eu hunain fynediad at gefnogaeth briodol sy'n diwallu eu hanghenion penodol, gan gynnwys cefnogaeth i wella.

3.
Y bydd gweithlu VAWDASV yng Ngwent yn deall effaith cam-drin ar ddioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd ac y byddant yn dosturiol ac yn ystyriol o'u hanghenion a'u dewisiadau. Y bydd yr holl wasanaethau'n cael gwybod am drawma, yn deall croestoriadedd a bydd yr angen i ddatgelu dro ar ôl tro yn cael ei leihau cyn lleied â phosibl.

4.
Y bydd llwybr VAWDASV clir, cyson a chynaliadwy yn ei le i holl gymunedau Gwent er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol rhag VAWDASV pan fydd yn digwydd. Y bydd eu hanghenion cymorth uniongyrchol a thymor hwy yn cael sylw er mwyn galluogi iachâd.

5.
Y bydd dioddefwyr a goroeswyr yng Ngwent yn cael mynediad amserol at dai priodol gan sicrhau y gallant adael sefyllfaoedd ble mae cam-drin yn digwydd yn ddiogel a chael mynediad parhaus at leoedd diogel i wella.

6.
Y bydd llwybrau gofal VAWDASV Gwent yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr risg isel a chanolig a'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod cymorth cymesur, o ansawdd uchel, effeithiol a chyfannol ar gael i ddiwallu anghenion cymorth cyfredol a thymor hwy a galluogi iachâd.

7.
Y bydd Bwrdd VAWDASV Gwent yn sicrhau bod penderfyniadau'n canolbwyntio ar y dioddefwr a'r goroeswr, gan gydnabod ac ymateb yn well i anghenion a phrofiadau cymunedau sy'n cael eu tan-wasanaethu a goroeswyr trais rhywiol.

8.
Y bydd diwylliant yng Ngwent sy'n galluogi buddsoddiad mewn gweithgareddau atal ac ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar y boblogaeth ar y raddfa a'r cwmpas sy'n ofynnol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar normau a chredoau cymdeithasol am VAWDASV.

9.
Y bydd Bwrdd VAWDASV yn deall anghenion poblogaeth Gwent yn llawn ar draws cwrs bywyd ac effaith ein gweithredu ar y cyd. Byddwn yn defnyddio data, deallusrwydd a mewnwelediadau o brofiad bywyd i lywio comisiynu, gwerthuso a gwella ansawdd effeithiol.

10.
Y bydd Bwrdd VAWDASV yn cydnabod yn llawn ac yn rhoi cydraddoldeb i atal trais rhywiol o fewn ei waith i amddiffyn cymunedau yng Ngwent rhag effeithiau VAWDASV.



Diolch

I'r Dioddefwyr a'r Goroeswyr

Rydym eisiau diolch i'r dioddefwyr a'r goroeswyr a rannodd eu profiadau gyda ni fel rhan o'r asesiad o anghenion hwn. Mae eich mewnwelediadau yn amhrisiadwy ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Partneriaid a Chydweithwyr Gwent

Hoffem hefyd estyn ein diolch i gydweithwyr ledled Gwent a gymerodd ran mewn cyfweliadau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac a rannodd eich profiadau o weithio o fewn gwasanaethau, ac i'r rheiny a gefnogodd ddatblygiad y cyd-asesiad strategol o anghenion hwn trwy gyfrannu tystiolaeth, data a gwybodaeth.

Eisiau gwybod mwy?

Noder, dyma'r adroddiad cryno ar gyfer y cyd-asesiad strategol o anghenion. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi'i llywio gan adroddiad asesiad o anghenion technegol llawn sydd hefyd ar gael ar ein gwefan.

Os hoffech gysylltu â ni, anfonwch e-bost at Admin_ABGPHT@wales.nhs.uk

Gofynnwch am help os oes angen.

Os ydych chi wedi cael eich effeithio gan unrhyw un o'r materion a drafodir yn yr adroddiad hwn, mae cymorth ar gael yn lleol ac yn genedlaethol:

Cyfannol Women's Aid
03300 564456
Hafan - Cymorth cam-drin a thrais rhywiol
Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
Llinell gymorth Byw Heb Ofn | LLYW.CYMRU



Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Public Health Team

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwent
Polisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Cyd-Asesiad Strategol o Anghenion

Adroddiad Cryno
Medi 2026

Diolch am ddarllen



©